

CANLLAWIAU

Canllawiau arholiadau ac asesu: 2020 i 2021

Gwybodaeth am arholiadau ac asesiadau, gan gynnwys Safon Uwch, yn ystod pandemig coronaidd y galon.

Rhan o: [Addysg bellach: coronafeirws](#), [Cymwysterau a Ysgolion: coronafeirws](#)

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Mawrth 2020

Diweddardwyd ddiwethaf: 17 Mawrth 2021

Cynnwys

- [Beth sy'n digwydd o ran cymwysterau 2021?](#)
- [Beth sy'n digwydd o ran ymgeiswyr preifat?](#)
- [Beth am ddysgwyr ym Mlwyddyn 10?](#)
- [Beth am ddysgwyr ym Mlwyddyn 12?](#)
- [Beth am asesiadau nad ydynt yn arholiadau?](#)
- [Pa gymorth fydd ar gael i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13?](#)
- [Pryd bydd dysgwyr Blwyddyn 11 ac 13 yn gallu gadael ysgol?](#)
- [Ydy penderfyniad y Gweinidog i ganslo arholiadau yng Nghymru yn berthnasol i gymwysterau byrddau arholi Lloegr?](#)
- [A fydd canslo'r arholiadau yn effeithio ar fy nghynlluniau i fynd i'r Brifysgol?](#)
- [A fydd yn rhaid i ddysgwyr sefyll y prawf Rhifedd \(Rhesymu\) eleni?](#)
- [A fydd yn ofynnol i ddysgwyr gymryd yr asesiadau personol ar-lein mewn Rhifedd \(Gweithdrefnol\) a Darllen?](#)

PERTHNASOL

- Addysg bellach: coronafeirws**
 - [Addysg bellach: coronafeirws](#)
- Cymorth i'r rheini sy'n hyfforddi**
 - [Dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws](#)
- Ysgolion: coronafeirws**
 - [Staff ysgolion a'u cyflogaeth: coronafeirws](#)

Beth sy'n digwydd o ran cymwysterau 2021?

Cyn y Nadolig, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai cymwysterau cyffredinol yn 2021 yn seiliedig ar ddull gweithredu tair effen o asesiadau nad ydynt yn arholiadau, asesiadau mewnol ac asesiadau allanol. Gwnaed y penderfyniad hwn ar sail cyngor a ddarparwyd gan **Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni** o bennaethiaid ysgolion a cholegau a enwebwyd gan gonsortia rhanbarthol, Colegau Cymru ac awdurdodau lleol.

Ers hynny, mae'r argyfwng iechyd y cyhoedd wedi gwaethgu. Oni bai bod cyfraddau trosglwyddo'r haint yn y gymuned yn gostwng yn sylweddol erbyn 29 Ionawr, bydd ysgolion a cholegau yn parhau i ddysgu o bell ar gyfer y rhan fwyaf o fyfyrwyr tan hanner tymor mis Chwefror. O ganlyniad, bu'n rhaid inni ailedrych ar ein cynigion ar gyfer cymwysterau i adlewyrchu effaith hyn ar les hyder dysgwyr.

Mae'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni wedi ailymgynnull bellach, ac wedi datblygu cynigion diwygiedig yn y cyd-destun newydd hwn. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth fanwl i adroddiad terfynol yr adolygiad annibynnol o gymwysterau dan arweiniad Louise Casella, a fydd yn cael ei gyhoeddi ddydd Gwener 22 Ionawr.

Mae'r Gweinidog wedi cytuno i'r cynigion diwygiedig, ac wedi'u derbyn fel ei pholisi. Ceir crynoded ohonynt isod.

Bydd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru yn derbyn cymwysterau wedi'u dyfarnu drwy fodel Gradd a Bennir gan Ganolfan.

Mae hyn yn golygu y bydd graddau'n cael eu pennu gan eu hysgol neu eu coleg yn seiliedig ar asesiad o waith y dysgwr.

Bydd modd i ysgolion a cholegau ddefnyddio ystod o dystiolaeth i bennu graddau i'w dyfarnu i'w dysgwyr, gan gynnwys asesiadau di-arholiad, ffug arholiadau, a gwaith dosbarth. Yn ogystal, bydd CBAC yn cynnig cyfres o bapurau blaenorol wedi'u haddasu i alluogi ysgolion i barhau i asesu'r dysgu o fewn eu cynlluniau addysgu, er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i athrawon a dysgwyr. Ond ni fydd asesiadau allanol ffurfiol.

Bydd Cymwysterau Cymru'n gweithio gyda CBAC, a gyda chymorth y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni, i ddarparu fframwaith asesu i helpu ysgolion a cholegau i ddatblygu eu cynlluniau asesu. Dylai'r cynlluniau asesu ddangos digon o sylw i gysyniadau allweddol i ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen, a manylion am sut y mae'r Ganolfan wedi pennu gradd y dysgwr. Bydd CBAC yn sicrhau ansawdd y cynlluniau asesu hyn.

Unwaith y bydd y broses sicrhau ansawdd wedi'i chwblhau yn y Ganolfan, bydd y radd yn cael ei chyflwyno i CBAC. Ni fydd unrhyw ymyrraeth yn y cyfamser ar y graddau. Bydd dysgwyr yn apelio i'w hysgol neu eu coleg os ydyn nhw'n anhapus â'u gradd, ac i CBAC os ydyn nhw'n anhapus â'r broses.

Mae'r dull gweithredu hwn o ran cael Gradd a Bennir gan Ganolfan, yn gosod ymddiriedaeth yn ymrwymiad athrawon a darlithwyr i flaenoriaethu addysgu a dysgu yn yr amser sydd ar gael, a'u gwybodaeth am ansawdd gwaith eu dysgwyr.

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y drefn raddio mor glir â phosibl o dan yr amgylchiadau, gan barhau i fod mor syml â phosibl. Addysgu cynnwys craidd a gwahanol agweddau ar bob cwsr yw'r flaenoriaeth absoliwt o hyd i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad, er mwyn eu cefnogi i symud ymlaen gyda sicrwydd i'r camau nesaf, a chyda hyder yn y graddau a ddyfarnwyd iddynt.

Ceir rhagor o wybodaeth am y model Gradd a Bennir gan Ganolfan a'r hyn y mae'n ei olygu i athrawon a dysgwyr ar wefannau **Cymwysterau Cymru** a **CBAC**.

Beth sy'n digwydd o ran ymgeiswyr preifat?

Rydym yn cydnabod, yn sgil y trefniadau a sefydlwyd y llynedd i gyfrifo graddau, nad oedd modd i bob ymgeisydd preifat, gan gynnwys myfyrwyr aeddfed a oedd yn aiseffyll cymwysterau a dysgwyr oedd yn cael eu haddysgu gartref, gael graddau, gan nad oedd gan ysgolion a cholegau ddigon o wybodaeth am yr ymgeisydd i roi dyfarniad profesiynol ar eu gallu.

Rydym yn deall y gallai rhai ymgeiswyr preifat fod yn bryderus am y model gradd a bennir gan ganolfan a ph'un a fyddant yn gallu cael graddau. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni ystyried trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat fel blaenoriaeth ac wedi ymrwmo i sicrhau bod opsiwn clir i gefnogi eu cynnydd nhw hefyd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach am hwn cyn gynted â phosibl.

Ein blaenoriaeth yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn symud ymlaen yn hyderus – mae hyn yn cynnwys anghenion ymgeiswyr preifat.

Beth am ddysgwyr ym Mlwyddyn 10?

Yn achos dysgwyr ym Mlwyddyn 10 sydd i fod i gwblhau cymhwyster eleni, bydd y dull hwn yn berthnasol ond ni fydd yn berthnasol i ddysgwyr sydd i fod i gymryd unedau asesu unigol. Bydd Cymwysterau Cymru'n ystyried pa addasiadau a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer y pynciau hyn y flwyddyn nesaf.

Beth am ddysgwyr ym Mlwyddyn 12?

Bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 12 yn cael gradd UG a bennir gan Ganolfan. Bydd hynny'n cydnabod eu gwaith caled a'u dysgu eleni, yn eu galluogi i symud ymlaen i astudio cwsr Safon Uwch, ac yn cefnogi ceisiadau UCAS, ond ni fydd yn cyfrannu at y dyfarniad Safon Uwch terfynol yn 2022.

Beth am asesiadau nad ydynt yn arholiadau?

Gan gydnabod yr heriau sy'n codi yn sgil y tarfu parhaus a gorfod dysgu o bell, mae'r terfynau amser a'r rheolaethau sy'n ymwneud ag asesiadau nad ydynt yn arholiadau yn cael eu dileu ac ni fyddant yn cael eu cymedroli gan CBAC.

Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, byddem yn annog ysgolion a cholegau i helpu dysgwyr i ymgymryd â rhai o'u hasesiadau di-arholiad er mwyn parhau i feithrin sgiliau a dysgu.

Mae meithrin gwybodaeth a sgiliau, ac ymdrin â chysyniadau craidd i gefnogi cynnydd, yn flaenoriaeth o hyd a dylid parhau i ganolbwyntio ar hyn, gyda chymorth ein **canllawiau** a'n dull o ddysgu o bell fel bo'n briodol.

Pa gymorth fydd ar gael i ddysgwyr ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13?

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £1.9m yn ychwanegol mewn adnoddau addysg i gefnogi dysgwyr ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13 i baratoi ar gyfer eu hasesiadau TGACU a Safon Uwch. Mae'r adnoddau adolygu, sydd ar gael ar wefan Hwb a CBAC, yn cynnwys 'trefnwyr gwybodaeth' i helpu i ddysgu ffeithiau a gwybodaeth allweddol, arweiniad i'r arholiadau a chanllawiau adolygu. Mae'r adnoddau yn ychwanegu at y £7m sy'n cael ei ddarparu i ysgolion a cholegau er mwyn cyflwyno rhaglenni mentora a chymorth adolygu ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau.

Addysgu cynnwys craidd a gwahanol agweddau ar bob cwsr yw'r flaenoriaeth absoliwt o hyd i ddysgwyr mewn blynyddoedd arholiad, er mwyn eu cefnogi i symud ymlaen gyda sicrwydd i'r camau nesaf, a chyda hyder yn y graddau a ddyfarnwyd iddynt. Mae'r model Gradd a Bennir gan Ganolfan wedi'i gynllunio i gefnogi hyn fel bod dysgwyr yn gallu parhau â'u dysgu yn nhymor yr haf.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i edrych ar sut y gellid cefnogi dysgwyr yng Nghymru drwy'r cyfnod hwn, a phontio i gyrsiau prifysgol. Mae'r trafodaethau a'r ymrwymïadau cychwynnol gan ein prifysgolion wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Yn yr un modd, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau addysg bellach ac ysgolion i helpu sut y gallant gefnogi'r dysgwyr hynny sydd ym mlynnyddoedd 10, 11 a 12 ar hyn o bryd, wrth iddynt symud i'r flwyddyn academaidd newydd. Mae'n hanfodol i'r sector addysg ehangach barhau i ddod ynghyd i gefnogi ein dysgwyr.

Pryd bydd dysgwyr Blwyddyn 11 ac 13 yn gallu gadael ysgol?

Rydym yn cydnabod bod dysgwyr ac ymarferwyr addysgol wedi profi amhariad sylweddol yn ystod y ddwy flynedd academaidd ddiwethaf. I gydnabod yr angen am sefydlogrwydd, ni fydd unrhyw newidiadau i ddyddiadau tymor nac i'r oedran gadael ysgol y flwyddyn academaidd hon. Rydym i gyd yn dymuno sicrhau bod dysgwyr yn barod ac yn hyderus i symud i'w camau nesaf. Yn ystod gweddill tymor yr haf, mae gan ysgolion a cholegau yr hyblygrwydd i ganolbwyntio ar gefnogi trosglwyddo myfyrwyr ymhellach o Flynnyddoedd 11, 12 ac 13, gan gynnwys trwy'r dyraniad cyllid o £8.5m a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer ysgolion a cholegau. Rydym yn cydnabod y straen a'r ansicrwydd y mae'r pandemig wedi'u hachosi i lawer o'n dysgwyr, ac yn cydnabod y bydd dysgwyr yn elwa o gael amser i ffwrdd yn ystod yr haf er mwyn cael gorffwys yn dda cyn y flwyddyn academaidd nesaf ym mis Medi 2021.

Ydy penderfyniad y Gweinidog i ganslo arholiadau yng Nghymru yn berthnasol i gymwysterau byrddau arholi Lloegr?

Nac ydy. Dim ond i gymwysterau a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru, a gynlluniwyd ar gyfer Cymru ac a ddarperir gan CBAC y mae'r trefniadau newydd ar gyfer haf 2021 yn berthnasol. Nid ydynt yn berthnasol i gymwysterau a ddarperir gan gyrrff dyfarnu yn Lloegr, gan fod y cyrff yma yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual.

A fydd canslo'r arholiadau yn effeithio ar fy nghynlluniau i fynd i'r Brifysgol?

Rydym wedi bod yn trafod gyda phrifysgolion sydd wedi pwysleisio mai eu blaenoriaeth yw myfyrwyr sydd wedi bod drwy elfennau craidd eu cwsr, a chyn bydd â bod ynra dystiolaeth dryloyw a thrylwyr o wybodaeth a gallu dysgwr, na fydd i dysgwyr o dan anfantaïs wrth symud ymlaen. Mae'r **Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni** wedi bod yn datblygu cynlluniau sy'n diwallu'r anghenion hyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â phrifysgolion wrth i fanylion gweithredol y model Gradd a Bennir gan Ganolfan gael eu cwblhau fel eu bod yn parhau i fod â hyder yn y dull rydym yn ei gymryd i gefnogi dysgwyr yng Nghymru.

Nod ein dull gweithredu yw sicrhau cymaint o amser i gyrrff aros i addysgu a dysgu, fel bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn symud ymlaen yn hyderus.

A fydd yn rhaid i ddysgwyr sefyll y prawf Rhifedd (Rhesymu) eleni?

Ni fydd profion statudol ar bapur yng Nghymru eleni. Bydd asesiadau personol Rhifedd (Rhesymu) ar-lein yn cael eu treialu, ac yn dod yn ofynnol statudol o flwyddyn academaidd 2021 i 2022.

A fydd yn ofynnol i ddysgwyr gymryd yr asesiadau personol ar-lein mewn Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen?

Mae asesiadau personol Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen yn darparu dull hyblyg i ysgolion gasglu gwybodaeth am sgiliau eu dysgwyr. Maent wedi cael eu llunio i gefnogi cynnydd ac i ennyn diddordeb dysgwyr mewn deall ble maen nhw i wedi'i gyrraedd ac i'w dysgu. Ar gyfer blwyddyn ysgol 2020 i 2021, y gofyn yw i ysgolion gymnal yr asesiadau ar sail 'cystal ag y bo modd'.

Lle mae dysgwyr wedi cwblhau asesiadau rhifedd gweithdrefnol eleni, bydd ysgolion yn gallu cael adborth ar eu sgiliau, eu sgorio safonedig ar sail oedran ac adroddiadau cynnydd.

Mae adroddiadau adborth ar gyfer yr asesiadau darllen hefyd ar gael. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r rhan fwyaf o'r dysgwyr gymryd yr asesiadau darllen y bydd sgoriau ac adroddiadau cynnydd ar gael.

Dylid nodi mai diben yr asesiadau hyn yw helpu dysgwyr i wneud cynnydd; nid yw asesiadau personol yn rhan o'r broses gymwysterau.

Cyhoeddwyd gyntaf 24 Mawrth 2020	Rhan o Addysg bellach: coronafeirws Cymwysterau Ysgolion: coronafeirws
Diweddardwyd ddiwethaf 17 Mawrth 2021	

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)